

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 9

Key language

Present/Future short form of 'mynd'
'O' + pronouns - ohono i etc

New words

dim golwg ohonot ti	no sight of you
oerfel	the cold
rheoli	to rule
bwriadu	to intend
rhydd	free
coelio	to believe
esgus	excuse
bendigedig	wonderful
ar wahân	apart
bwlch	a gap
denu	to attract
diamynedd	impatient
bendigedig	wonderful
ar wahân	apart
bwlch	a gap
denu	to attract
diamynedd	impatient

Main Grammatical Points

Arwyn complains that he could not find Jenny in the house, he says
'(doedd) dim golwg ohonot ti yn unman' - there wasn't a sign of you anywhere/you weren't anywhere to be seen.

O

Remember that 'o' is a preposition which changes with every pronoun. Here's the pattern in full:

Ohono i	of me
Ohonot ti	of you (singular)
Ohono fe/fo	of him/of it
Ohoni hi	of her/of it
Ohonon ni	of us
Ohonoch chi	of you (plural)
Ohonyn nhw	of them

Remember however that with a noun the form is 'o' or 'o'r'

O Ddolgellau
O'r gwaith

Awydd

Arwyn and Jenny discuss going out for dinner in the new restaurant in Llaniwan. Arwyn asks 'Ti awydd mynd draw?' - awydd means desire or fancy: 'do you fancy going over?' You could use 'awydd' like this:

Dw i awydd bwyd Eidalaidd heno - I fancy Italian food tonight
Dw i ddim awydd bwyd Eidalaidd heno - I don't fancy Italian food tonight

Quite

There are a few different ways of using 'quite' in front of adjectives, such as 'quite difficult', 'quite easy':

Eitha anodd - braidd yn anodd - bach yn anodd.
'bach yn anodd' is used by the South Walian characters.

Mynd

Let's have another look at the future short form of the verb mynd.

You have probably learned this pattern:

Af i	I'll go
Ei di	You'll go
Aiff e/hi (SW)	He/She'll go
Eith o/hi (NW)	He She'll go
Awn ni	We'll go
Ewch chi	You'll go
Ân nhw	They'll go

In spoken Welsh the pronunciation is often:

Â i
Ei di
Eiff e/hi
Eith o/hi
Ewn ni
Ewch chi
Ân nhw

Arwyn says: 'Ewn ni i ishte ar stôl ger y bar'

At the bar, Arwyn offers Brian a drink. As well as 'diod' there are a few other words for 'a drink':

llymaid (pr. llymed); glasied; gwydraid (pr. gwydred).

Useful Expressions

Perffaith siwr	-	perfectly sure
Hen lanc	-	bachelor
Trio fy ngorau glas	-	try my very best
Ar flaenau fy nhraed	-	on my tip toes

Ysbyty Brynaber: Episode 25

Jenny has returned home but is far from happy about the state of her marriage. Arwyn persuades her that they should both go for a meal at the new restaurant in Llaniwan.

Brian is making arrangements to meet up with his girlfriend Linda when his wife Agnes calls at the garage.

Geirfa

dim golwg ohonot ti	no sight of you
oerfel	the cold
rheoli	to rule
bwriadu	to intend
rhydd	free
coelio	to believe
esgus	excuse

Golygfa 1

Arwyn - Jenny? Mas fan hyn, wyt ti?

Weles i dy gar di tu fas i'r ty ond doedd dim golwg ohonot ti yn unman...

Jenny - Oeddet ti'n poeni mod i wedi rhedeg i ffwrdd eto? I lawr i Sir Benfro? Ac aros mewn gwesty bach tawel ar mhen fy hun?

Arwyn - Na, na wnes i ddim meddwl hynny...Edrycha ar dy ddwylo di...Maen nhw'n las...ers faint wyt ti wedi bod mas yn garddio?

Jenny - Awr neu ddwy...

Arwyn - Mae hynny'n ddigon nawr. Dere i'r ty.

Jenny - Na. Dw i'n mwynhau fy hun fan hyn.

Dic - Mwynhau dy hun? Wyt ti?

Jenny - Dw i heb fwynhau fy hun cymaint ers amser. Mae garddio yn ffordd wych o ymlacio. A dw i eisiau gorffen y job ar ôl dechra...

Arwyn - Mae yfory gyda ti eto. Dere mas o'r oerfel. Dw i eisiau inni gael sgwrs...

Jenny - Sgwrs? Am beth?

Arwyn - Dere mewn i'r ty a ddweda i wrthot ti...Jenny, wyt ti'n dod 'te?

Jenny - Mewn munud. Does dim rhaid imi wneud bob dim ti'n ddweud wrtha i bob tro, nac oes?

Arwyn - Na, na, wrth gwrs...

Jenny - Dyna 'mhroblem i ers priodi. Fy mhroblem fawr i. Gadael i ti ddictetio fy mywyd i. Dweud wrtha i be dw i fod i feddwl. Be dw i fod i wneud...

Arwyn - Hei, hei. Paid â trio fy 'ngwneud i yn rhyw fath o "control freak!" Yn rhywun sy eisiau rheoli pob eiliad o dy fywyd di...

Jenny - Dyna be ti'n wneud.

Arwyn - Hei...Dere nawr...Jocan o'n i.

Jenny - Dydy hyn ddim yn jôc dim mwy.

Arwyn - Jenny, 'drycha...Y rheswm wy eisiau sgwrs yw hyn: wyt ti'n rhydd nos yfory?

Jenny - Nos yfory? Ydw...Pam? Beth wyt ti wedi wneud?

Arwyn - Siarad â Kenneth Evans y Registrar o'n i prynhawn 'ma...Ac roedd e'n canmol y ty bwyta 'ma sy newydd agor tu fas i bentre Llaniwan...Dweud bod y lle yn ffantastig...

Jenny - Dw i wedi clywed am y lle hefyd...Mae o i fod yn dda iawn...

Arwyn - Faset ti'n lico mynd draw? Wy'n credu byddai e'n grêt...Pryd o fwyd da...Potel o win...A cyfle i ti a fi...wel i ti a fi fod gyda'n gilydd...Beth amdani? Plis, dwed 'le'...

Golygfa 2

Brian - Helo? Linda?...Ti'n rhydd i siarad? Da iawn...Hei, paid a siarad yn fudur...Ti byth yn

gwybod pwy sy'n gwrando arnon ni... Beth? Na, ddim Tony ti na Agnes fi, gobeithio...Pam?

Pa broblem? Be sydd wedi digwydd 'te? Ond roedden ni wedi trefnu cyfarfod heno...Linda, edrycha rwan -

Linda, gwranda, gwranda arna i am funud...Gad imi ddweud rhywbeth...Na, na, plis - gwranda mae'n rhaid inni gyfarfod heno...Oes, achos mae pob nos arall wythnos yma yn hollol amhosib... O, na!

Gesia be? Ti byth yn mynd i goelio hyn - ond ma' Agnes newydd barcio y tu allan i'r showroom jyst rwan...

Dw i'n edrach arni yn camu allan o'r car...A dyma hi'n codi'i llaw arna i...Ac mae Rhodri hefo hi hefyd...

Linda, edrycha - pam elli di ddim dod heno fel roedden ni wedi trefnu? Gwna ryw esgus arall...Pam lai? Linda, jyst dweud wrth Tony fod tiwtor y dosbarth nos eisiau dy weld di - Nos yfory? Na, alla i ddim nos yfory...Na, sori, ond mae nos yfory yn hollol amhosib...Oes rhaid i bopeth fod mor uffernol o gymhleth? Linda, edrycha, mae Agnes a Rhodri yn cerddad trwy'r drws rwan hyn. Alla i'm siarad dim mwy, mae'n rhaid imi fynd.

Agnes - Ar y ffordd i nôl Beca ma' Rhodri a fi...

Brian - Beca? O? Lle mae hi 'te?

Agnes - Brian, paid â dweud dy fod ti wedi anghofio...Parti pen-blwydd Lowri...

Brian - Ddim Lowri Anderson, merch Bill a Mary?

Agnes - Ie. Mae Lowri'n bedair oed heddi.

Rhodri - Maen nhw i gyd yn Jazzy Jungle...

Agnes - A gan dy fod ti ddim gartre tan yn hwyr heno roedd Rhodri eisiau galw heibo i ddweud 'helo.'

Brian - Wel syrpreis, syrpreis ond mi fydda i adra i swper heno, wedi'r cwbl...

Agnes - Ond ddwedest ti bore 'ma na fyddet ti nôl tan yn hwyr...

Brian - Do - dw i'n gwybod... Ond ma'r plania wedi newid...

Agnes - Mae hynna'n brilliant...

Brian - Ydy - hollol brilliant on'd ydy?

Ysbyty Brynaber: Episode 26

Jenny and Arwyn arrive at the restaurant in Llaniwan. Brian Rees also turns up but has to make a hasty retreat!

Geirfa

bendigedig	wonderful
ar wahân	apart
bwllch	a gap
denu	to attract
diamynedd	impatient

Golygfa 1

Arwyn - Jenny, dere i fi weld y map yna unwaith eto...Rhybuddiodd Ken Evans fi ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r restaurant 'ma...

Jenny - Efallai dylen ni fod wedi troi i lawr y ffordd 'na wnaethon ni basio wedi'r groesffordd...?

Arwyn - Na, dw i ddim yn credu...Edrycha...rydyn ni fan hyn nawr...

Jenny - Ond mae'r ffordd roedden ni eisiau nôl fan'na...

Arwyn - Na, Jen - dw i'n credu dy fod ti'n anghywir...Heb fynd digon pell rydyn ni...Ti'n gweld? Os ewn ni ymlaen a throi i'r chwith mewn - beth? - tri chan llath arall fe ddylen ni ddod at y restaurant...Beth ti'n feddwl?

Jenny - Dw i'n anobeithiol wrth ddarllen mapiau...

Arwyn - Dere inni weld beth ddigwyddiff 'te...Hen dy ffarm wedi'i droi yn restaurant ydy e, mae'n debyg...ddwedodd Kenneth bod y bwyd yn fendigedig...Diolch am ddod gyda fi 'ma heno...Fydd e'n gyfle inni siarad...Achos dw i'n teimlo ein bod ni wedi tyfu ar wahan yn ddiweddar...

Jenny - Allwn ni siarad am rywbeth arall heno...?

Arwyn - Jyst dweud ydw i...Dw i'n becho amdanat ti.

Jenny - Dyma ni. Dyma ni wedi cyrraedd.

Arwyn - Mae lot o geir 'ma...Ble alla i barco, dwed?

Jenny - Mae 'na fwlch rhwng y ddau gar draw yn fa'na...

Golygfa 2

Arwyn - Ar dy ôl di...Yffach! Mae hi'n llawn 'ma!

Jenny - Mae lle newydd wastad yn denu pobol ond ydy...?

Arwyn - Dere. Ewn ni i eistedd ar stôl ger y bar...Oes barman 'ma 'te?

Jenny - Does dim brys. Mi ddaw rhywun o rywle rwan...Paid â dechra cwyno, Arwyn...

Arwyn - Dechrau cwyno beth...?

Jenny - Jyst...Wyt ti'n gallu bod mor ddiamynedd weithia...

Arwyn - Beth wyt ti'n feddwl?

Jenny - Plis. Dw i ddim isio dechra dadlau. Ddim heno. Rydyn ni'n dau wedi cytuno...Wel wel!

Arwyn - Edrych pwy sy' draw fan'co...

Jenny - Yn ble?

Arwyn - Newydd ddod mas o'r ty bach...Yn siarad â'r waiter 'na...

Jenny - Brian Rees.

Arwyn - Ti'n meddwl fod Agnes yma?

Jenny - Wela i mohoni hi yn unman...

Arwyn - Na fi...Dyma fe'n dod aton ni...Brian? Shw'mai...?

Brian - ...O, helo...Sut 'dach chi'ch dau?

Arwyn - Iawn. Grêt. Od gweld ti mas fan hyn yng nghanol y wlad...

Brian - Wedi clwed pethau da am y lle yma ydw i...

Arwyn - Fi hefyd...

Jenny - Ydy Agnes yma hefo ti?

Brian - Yyyy...'Nac ydy...

Jenny - O? Ar ben dy hun, wyt ti?

Brian - Dim ond wedi stopio am ddrinc sydyn yma oeddwn i...Ar fy ffordd adref ydw i rwan ...A dweud y gwir maen well imi feddwl am ei throi hi...

Arwyn - Ti'n siwr dy fod ti ddim eisiau llymaid bach? Dw i'n prynu rownd i Jenny a fi nawr...

Brian - Na, na, ddim mwy...Ddim i fi, diolch...Mwynhewch eich hunain...Ond dw i am fynd adref rwan...

Jenny - Cofia fi at Agnes...

Brian - Siwr o 'neud...

Arwyn - Hwyl!

Brian - Hwyl...

Arwyn - A dyma'r barman yn dod o'r diwedd...Shw'mai, noswaith dda...Reit 'te...Jenny? Beth wyt ti eisiau i yfed?

Golygfa 3

Brian - Am blwmin strach!

Linda?...Heia...Na, ddim tu mewn i'r restaurant - ond tu allan... ble rwyd ti rwan 'ta?...Ah-uh...Na, tyrd yma beth bynnag a gawn ni sgwrs...Problam...Dim ots beth...Eglura i'r cwblwl ar ôl iti gyrraedd...

Oes - yn anffodus...Hasl...Mae'n rhaid inni newid y planiau...Beth? Siarad yn uwch dw i ddim yn dy glywed ti...Na, mae cwplwl yma dw i'n eu nabod...Ffrinidau i Agnes... mae hi'n gweithio hefo nhw yn yr hospitol...Arwyn a Jenny Saunders...A dim ond newydd gyrraedd rhyw eiliad neu ddwy yn ôl mae nhw...Argol, do...Ges i ddiawl o sioc...A lwc dy fod ti'n hwyr am unwaith neu dyna be fasai copsan a hanner...Y cwblwl wnes i oedd hel esgus...Mmmm-hmmm...Ia...Dyna pam dw i'n sefyll wrth ymyl y car tu allan i'r restaurant rwan hyn...Ydw, dw i'n gallu gweld dy hedleits di...Reit - dw i'n mynd off y ffôn...

Ysbyty Brynaber: Episode 27

Jenny and Arwyn are at the restaurant trying to iron out their marital problems. Arwyn says that he has been invited to play golf in Portugal but feels that he shouldn't go. Jenny insists that he should.

Brian arrives home very late.

Geirfa

ffydd	faith
ymdrech	effort
addo	to promise
hunanol	selfish
trafferth	trouble
drewi	to stink
diolchgar	grateful

Golygfa 1

Arwyn - Ti'n joio?

Jenny - Ydw. Mae'n neis iawn yma...

Arwyn - Jenny, edrycha - dw i'n gwybod fod yr wthnosau diwetha 'ma wedi bod yn rhai anodd i ti a fi...Ond dw i'n teimlo bod y gwaetha drosodd nawr a bod pethau'n dechrau gwella...

Jenny - Wyt ti?

Arwyn - Ydw. Dw i'n teimlo bydd pethau lot yn well o hyn ymlaen...Mae ffydd gyda fi ynot ti. Ac ynon ni fel cwpwl. Wir iti nawr...

Arwyn - Wyt ti ddim yn teimlo fel hynny hefyd?

Jenny - Ydw...mae'n debyg...

Arwyn - Dw i'n sylweddoli bod rhaid i fi wneud mwy o ymdrech. Dw i'n sylweddoli fod rhaid i ni'n dau wneud mwy o ymdrech. A dw i'n mynd i wneud fy ngore glas i drïo newid er dy fwyn di. Er ein mwyn ni. Jenny, dw i'n addo iti nawr bod fi am drïo bod yn fwy sensitif tuag at ti...

Jenny - A dw i'n ddiolchgar iti...

Arwyn - Mae'n gas gyda fi feddwl fod ti'n meddwl amdano i fel ryw fath o control freak...Control freak, myn yffach i! Achos ddim fel hynny dw i'n gweld fy hunan...

Jenny - Does neb byth yn gallu gweld ei hun yn glir nac oes?

Arwyn - Jenny...Ti'n fenyw dy hunan i'r dim

Jenny - Na. Dyna lle ti'n anghywir, Arwyn. Dw i ddim wir yn meddwl fy mod i'n gwobod pwy ydw i o gwbl...

Arwyn - Wrth gwrs dy fod ti...!

Jenny - Dydw i ddim. Ddim go iawn. A dyma mhroblem i. A dyna pam dw i eisiau amser i mi fy hun er mwyn cael amser i feddwl...

Arwyn - Wel, fydden i byth yn dweud wrthot ti am fynd nôl i'r gwaith nes bod ti'n barod...

Ti'n nabod Kenneth Evans?

Jenny - Be amdano fo?

Arwyn - Ofynnodd e os oeddwn i eisiau mynd i'r Algarve eleni i chwarae golff...

Jenny - Ti'n mynd?

Arwyn - Na, na. Ddwedes i mod i'n ffael...

Jenny - Ond ti wedi mynd bob blwyddyn ers blynyddoedd...

Arwyn - Dw i ddim eisiau bod yn hunanol a dy adael di...

Jenny - Dos. Rhaid iti fynd. Bydda i'n iawn...

Arwyn - Na, na. Flwyddyn nesa efallai - ond ddim eleni...

Jenny - Arwyn - dw i ddim eisiau dy stopio di rhag mynd...

Arwyn - Ti'n siwr?

Jenny - Berffaith siwr.

Arwyn - Wel, O. K. 'te...Dim ond os wyt ti'n siwr.

Jenny - Ydw, dw i'n berffaith siwr.

Golygfa 2

Agnes - ...Brian?

Brian - Ti ar ddi-hun o hyd...?

Agnes - Ti'n gwybod bo' fi'n cael traffeth cysgu os dwyt ti ddim gyda fi, cariad...

Brian - Finna'n trio ngora glas i fod yn dawel...Tynnu fy sgidiau wrth droed y grisiau...A cherdded i fyny ar flaena 'nhraed yn nhraed fy sanau...

Agnes - Ti'n hwyr...Faint o'r gloch yw hi?

Brian - Newydd droi hanner awr wedi hanner nos...

Agnes - Na...Mae hi'n agosach at un o'r gloch y bore...Ble ti wedi bod...?

Brian - Jac Whelan oedd yn nghadw i i siarad...

Agnes - Does dim cartre gyda fe i fynd iddo fe 'te...?

Brian - Oes. Ond hen lanc ydy o....

Agnes - Ble aethoch chi'ch dau 'te?

Brian - Am ddrinc i ddechrau. Trafod busnes. Ac wedyn doedd Jac ddim wedi cael swper ac aethon ni am bryd Chinese...

Agnes - Neis?

Brian - Eitha. Er mae'n well gen i Indians. Ond mae Jac yn alergic i ginger, coriander ac unrhyw fath o chillis.

Agnes - Trueni na fyddai e'n alergic i sigarets.

Brian - Dw i'n drewi ydw i?

Agnes - Ofnadwy.

Brian - Mae o'n smociwr ofnadwy o drwm. Agnes, fasai ots gent ti? Ond dw i eisiau cawod. Ydy'r dwr yn boeth...?

Agnes - Ydy. Ond paid a bod yn hir wnei di?

Brian - Fydda i ddim. Ond dw i'n teimlo yn reit chwyslyd... Dw i wedi edrych mlaen at dy weld di drwy'r nos, cofia...

Agnes - Ti'n gariad, Brei...A dw i'n dy garu di lot...

Synopsis

Jenny has returned home but she is far from happy about her relationship with Arwyn. Arwyn finally succeeds in persuading his wife to go out for a meal at the new restaurant in Llaniwan.

Meanwhile, Brian Rees has been discussing his next rendezvous with his girlfriend - Linda. They decided to meet at the same restaurant in Llaniwan.

At the restaurant Brian had to make a hasty retreat after running into Arwyn and Jenny Saunders.

Brian returned home late:

Agnes - Ti'n gariad Brei ... A dw i'n dy garu di lot ...

Little does she know...

Test yourself

1. What is the Welsh for 'I think the world of her'?
 - a) Dw i'n ei hoffi hi
 - b) Dw i'n meddwl y byd ohonot ti
 - c) **Dw i'n meddwl y byd ohoni hi**
2. Translate 'We'll go' into Welsh
 - a) Rydyn ni'n mynd
 - b) **Awn ni**
 - c) Byddwn ni'n mynd
3. What is the Welsh verb for 'to intend'?
 - a) bwrw
 - b) berwi
 - c) **bwriadu**
4. What's the word in north Wales for 'a drink'?
 - a) dwr
 - b) pryd o fwyd
 - c) **llymaid**
5. What's the Welsh for 'wonderful'?
 - a) ofnadwy
 - b) **bendigedig**
 - c) hyfryd
6. How would you translate the Welsh phrase 'try my very best'?
 - a) **trio fy ngorau glas**
 - b) trio fy ngorau gwyrdd
 - c) trio fy ngorau llwyd